Atodiad 3: Cynnwys pobl ifanc a rhieni/gofalwyr yn yr hyfforddiant

Mae'r hyfforddiant hwn yn canolbwyntio ar hawliau plant a phobl ifanc; o'r herwydd, dylid ystyried cynnwys pobl ifanc yn yr hyfforddiant yn elfen allweddol o'i ddarparu. Mae yna becynnau hyfforddi CCUHP a luniwyd yn arbennig ar gyfer plant a phobl ifanc ac mae'r hyfforddiant hwn wedi ei lunio ar gyfer ymarferwyr. Fodd bynnag, dylai cynnwys pobl ifanc, naill ai fel cyfranogwyr neu eu gwahodd i rannu eu profiadau gyda'r grŵp hyfforddi, barhau i fod yn rhan o'r meddylfryd ar gyfer y cwrs hwn. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn datgan fel a ganlyn: "Mae gan unrhyw blentyn neu berson ifanc hawl i fynegi eu barn ac i gael sylw dyledus wedi'i roi i'r farn honno mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, yn dibynnu ar eu hoed a'u haeddfedrwydd. Mae CCUHP yn ystyried cyfranogi yn hawl yn hytrach nag yn fraint neu yn rhywbeth sy'n gorfod cael ei ennill".

Mae'n bwysig bod yr hyfforddiant hwn yn cefnogi'r hyn y mae'n ei hyrwyddo drwy ei weithrediadau – felly dylai cynnwys pobl ifanc fod yn rhan allweddol o'r meddylfryd a'r cynllunio ar gyfer yr hyfforddiant hwn.

Ar ben hynny, bob tro y bydd hynny'n bosib, a phryd bynnag y mae rhieni/gofalwyr eisiau cael eu cynnwys, mae'n bwysig bod hwythau hefyd yn cael llwybr at yr hyfforddiant hwn. Mae yna nifer o fanteision ynghlwm wrth gynnwys rhieni/gofalwyr - maent yn ychwanegu dimensiwn gwahanol i'r hyfforddiant, ac maent yn aml yn allweddol ar gyfer sicrhau bod hawliau plant a phobl ifanc yn cael eu parchu a'u gweithredu.

Mae yna nifer o fuddiannau y gall plant a phobl ifanc/gofalwyr eu cael o fod yn rhan o'r hyfforddiant hwn:-

- Maent yn cael yr un wybodaeth yn yr un ffordd â'r ymarferwyr y byddant, neu y maent eisoes, yn gweithio â hwy - mae hyn yn eu gosod mewn sefyllfa gadarnach o ran yr hyn y maent yn ei wybod am eu hawliau
- Mae ganddynt deimlad o berchnogaeth a buddsoddiad yn y broses o weithredu CCUHP, a byddant yn teimlo mwy o ddyletswydd i'w hyrwyddo
- Gallant fagu sgiliau trosglwyddadwy a chynyddu eu hyder a'u hunan-barch

Fodd bynnag, nid yw hi bob amser yn rhwydd sicrhau bod hyfforddiant o'r math yma'n gynhwysol, fel bo pobl ifanc a rhieni/gofalwyr yn gallu gweld ei fod yn berthnasol iddynt hwy ac yn gallu cael eu cynnwys yn rhwydd. Mae'n bosib bod yna elfennau sy'n rhwystro iddynt gael eu cynnwys y mae angen eu hystyried a'u goresgyn, cyn belled ag y bo hynny'n bosib, yn ystod y cyfnod cynllunio cynnar.

Dyma'r math o gwestiynau y gallai bod angen i chi eu hystyried o ran rhwystrau posib, a sut i'w goresgyn:-

- Corfforol – oes yna fynediad rhwydd i'r lleoliad (yn enwedig ar gyfer pobl ifanc, rhieni/gofalwyr ac ymarferwyr sydd ag anghenion ychwanegol) ac a oes yno gyfleusterau hwylus?
- Adnoddau – a yw deunyddiau'r cwrs yn hawdd eu darllen ac yn cael eu darparu mewn fformat sy'n hwylus i'r unigolyn?
- Agweddau – a fydd y cyfranogwyr eraill yn yr hyfforddiant yn derbyn cyfraniad pobl ifanc a rhieni/gofalwyr neu a fyddant yn gyndyn o'u croesawu a bod yn agored â hwy? A sut allwch chi ddelio â hyn?
- Gwefus-wasanaeth – ai tocynistiaeth yw eu cynnwys yn hytrach na gwerthfawrogi'r cyfraniadau y gallant eu gwneud a hynny'n golygu y byddant yn teimlo bod eu hamser wedi'i wastraffu?
- Cyfathrebu – a yw'r iaith sy'n cael ei defnyddio'n hawdd ei deall? Ydych chi'n defnyddio jargon? Ydych chi'n cymryd yn ganiataol eu bod yn gwybod rhywbeth yn barod? Ydych chi'n cymryd yn ganiataol bod ganddynt y gallu deallusol i ddilyn yr hyn sy'n digwydd?

Er mwyn hyrwyddo cynnwys pobl ifanc a rhieni/gofalwyr yn yr hyfforddiant ac er mwyn lleihau'r elfennau sy'n rhwystro eu cynnwys, mae yna dair elfen allweddol yng nghyswllt y digwyddiad hyfforddi y bydd gofyn i chi eu hystyried – Paratoi, Lleoliad ac amseru a Dull gweithredu'r hyfforddiant.

- **Paratoi**

  Mae paratoi yn berthnasol i chi fel hyfforddwr, i'r rhieni/gofalwyr a'r bobl ifanc ac i'r cyfranogwyr eraill yn yr hyfforddiant. Os ydych chi eisiau sicrhau bod eich hyfforddiant yn cynnig i rieni/gofalwyr a phobl ifanc brofiad hyfforddi effeithiol, sy'n eu denu i fod eisiau manteisio ar yr hyfforddiant yn y lle cyntaf, yna mae'n bwysig eich bod yn eu cynnwys yn ystod y cyfnod cynllunio. Byddai'r isod yn ddefnyddiol:-

  - Ewch ati'n weithredol i gynnwys cynrychiolydd rhieni/gofalwyr a phobl ifanc yn yr holl gamau cynllunio ar gyfer yr hyfforddiant, yn enwedig o ran sicrhau eu bod yn deall nodau'r diwrnod ac yn gallu rhoi cyngor ynglŷn â sut i hysbysebu'r hyfforddiant ymhlith rhieni/gofalwyr a phobl ifanc eraill.
  - Gwnewch yn siŵr bod gennych chi strategaeth systematig, glir ei diffiniad, ar gyfer recriwtio ystod eang o bobl ifanc a rhieni/gofalwyr, gan hysbysebu'n helaeth, ond yn briodol, a gwneud yn siŵr bod manylion am yr hyfforddiant yn cael eu targedu'n glir at y cyfranogwyr yr ydych yn ceisio eu cyrraedd.
  - Gwnewch yn siŵr nad tocynistiaeth yw eu cynnwys - cynlluniwch yn ofalus sut a pham y maent yn cael eu cynnwys, a gwnewch yn siŵr eich bod yn darparu gwybodaeth ynglŷn â hyn - gofynnwch i bobl ifanc a rhieni/gofalwyr beth fyddai'n helpu, gweithredwch ar hynny a dywedwch wrthynt sut rydych chi wedi newid yr hyn rydych chi'n ei wneud o ganlyniad i'w cyfraniadau - mae'n bwysig bod eu cyfraniad yn cyfrif.
  - Byddwch yn glir ynglŷn â natur y cyfraniad: a yw'r rhieni/gofalwyr/pobl ifanc i fod yn siaradwyr, yn gyfranogwyr neu'n hwyluswyr?
  - Dyrannwch adnoddau penodol ar gyfer cyfraniad rhieni/gofalwyr a phobl ifanc er mwyn talu mân dreuliau.
  - Gwnewch yn siŵr bod rhieni/gofalwyr a phobl ifanc yn ymwybodol o'r dechrau'n deg bod modd talu treuliau – gallai mân dreuliau gynnwys teithio, ffôn, gofal plant ayb.

- Gwnewch yn siŵr bod pob cyfranogwr yn ymwybodol o natur cyfraniad rhiant/gofalwr/person ifanc a'r angen i'w cefnogi i hwyluso cyfranogiad – gellid gwneud hyn fel rhan o ddeunyddiau cyhoeddusrwydd y cwrs.
- Dylech drin y digwyddiad fel prosiect, a bod â briff prosiect manwl ar gyfer pawb sy'n ymwneud â'r gwaith o'i gynllunio a darparu.
- Penderfynwch a yw'r digwyddiad yn agored i bawb/unrhyw rieni/gofalwyr a phobl ifanc neu a yw trwy wahoddiad yn unig.
- Cyn cyflwyno'r hyfforddiant, meddyliwch sut y gallech chi addasu'r gweithgareddau yr ydych yn eu cynnal er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn addas ar gyfer gofynion y bobl ifanc a'r rhieni/gofalwyr yr ydych yn gweithio â hwy.

- **Lleoliad ac amseru**
  - Mae angen ystyried y rhain yn ofalus er mwyn sicrhau bod cynifer ag y bo modd yn bresennol - holwch ymhlith rhieni/mudiadau gwirfoddol/pobl ifanc i weld pa amser a lleoliad fyddai orau
  - Archwiliwch y lleoliad ymlaen llaw i sicrhau bod mynediad rhwydd iddo a'i fod yn hawdd ei gyrraedd
  - Gwnewch yn siŵr y bydd gan rieni/gofalwyr ddigon o amser i ollwng/casglu eu plant o'r ysgol
  - Holwch i weld a yw hi'n bosib y bydd pobl ifanc yn wynebu unrhyw broblemau teithio a cheisiwch sicrhau eich bod yn trefnu lleoliad ac amser i osgoi hynny
  - Holwch i weld a oes modd cyrraedd y lleoliad yn rhwydd ar gludiant cyhoeddus, neu a oes modd gwneud trefniadau teithio eraill, e.e. rhannu car
  - Holwch i weld a fyddai digwyddiad dros y penwythnos neu gyda'r nos yn denu mwy o ddarpar gyfranogwyr
  - Holwch a yw'n werth i chi ystyried darparu gofal plant yn y lleoliad.

  Os yw'r bobl ifanc neu rieni/gofalwyr i fod yn siaradwyr:
  - Gwnewch yn siŵr eu bod yn deall pwrpas eu cyfraniad
  - Rhowch wybodaeth fanwl iddynt am yr hyfforddiant er mwyn iddynt wybod beth y mae hyfforddwyr eraill yn rhoi sylw iddo a beth fydd cyfranogwyr yn ei gael o'u cyfraniadau
  - Gwnewch yn siŵr bod pobl eraill berthnasol, yn hyfforddwyr ac yn gyfranogwyr, yn ymwybodol y bydd y person ifanc, rhiant/gofalwr yn siarad
  - Holwch i weld a ydynt wedi siarad yn gyhoeddus/hyfforddi o'r blaen ac os nad ydynt, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud rhywfaint o waith paratoi gyda hwy ymlaen llaw, i fagu eu hyder
  - Rhowch gyfle iddynt ymarfer y cynnwys y byddant yn ei gyflwyno gyda rhywun arall
  - Cyflwynwch hwy i'r grŵp mewn ffordd sy'n ei gwneud hi'n glir bod eu cyfraniad yn bwysig ond sy'n canolbwyntio ar yr hyn y maent eisiau i'r grŵp ei wybod amdanynt hwy
  - Holwch i weld a hoffent ddefnyddio technoleg ac a oes angen cefnogaeth arnynt i wneud hynny
  - Trafodwch â hwy a allant gadw at yr amser a ddyrannwyd iddynt, ac a ydynt eisiau derbyn cwestiynau neu beidio.

  Ar ôl y digwyddiad:

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn neilltuo amser ar ddiwedd y dydd ar gyfer cwestiynau pellach, os yw'r bobl ifanc rhieni/gofalwyr yn gyfranogwyr; ac os ydynt yn hyfforddwyr, neilltuwch amser ar gyfer ôl-drafodaeth ar ddiwedd yr hyfforddiant
- Holwch a fyddent yn dymuno cael unrhyw adborth, a sut, os ydynt yn gyflwynwyr a sut y byddent yn rhoi'r adborth os ydynt yn gyfranogwyr
- Mae'n bosib y byddent yn gwerthfawrogi llythyr ffurfiol o ddiolch am eu cyfraniad.

- **Dull gweithredu'r hyfforddiant**

  Mae dull gweithredu cynhwysol tuag at gyflwyno'r hyfforddiant, ac ystyried yr iaith a ddefnyddiwch a'r gweithgareddau a gynigiwch, yn bwysig iawn. Mae yna nifer o bethau y gallwch eu gwneud i gynyddu'r siawns y byddant yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys:-
  - Gwnewch yn siŵr y bydd yr iaith a ddefnyddir mewn digwyddiadau hyfforddi yn un y mae'r person ifanc a'r rhiant/gofalwr yn gallu ei dilyn ac nad yw'n cynnwys gormod o jargon ymarferwyr
  - Mae'n bosib y bydd rhai o'r gweithgareddau yn yr hyfforddiant yn codi materion sy'n ymwneud â gwrthdaro hawliau a thorri hawliau - bydd gofyn i chi sicrhau eich bod yn monitro hyn yn ofalus a gwneud yn siŵr bod yr iaith a ddefnyddir, y pwyntiau a godir a'r materion y rhoddir sylw iddynt yn cael eu trin yn sensitif ac nad ydynt yn rhoi'r person ifanc neu riant/gofalwr mewn sefyllfa anodd, ac yn teimlo'n anghyfforddus.
  - Bydd gofyn i chi wneud yn siŵr, wrth ddechrau cyflwyno'r hyfforddiant, eich bod yn pennu rheolau/egwyddorion sylfaenol neu gytundeb gwaith clir sy'n cynnwys materion yn ymwneud â chyfrinachedd a pharch ac sy'n cael eu hesbonio'n glir fel bo pob cyfranogwr yn eu deall ac yn eu derbyn.
  - Gwnewch yn siŵr bod y gweithgareddau a ddarperir yn ystod yr hyfforddiant yn addas ar gyfer y bobl ifanc a'r rhieni/gofalwyr a gynrychiolir yn y grŵp hyfforddi. Mae'n hanfodol bwysig bod pobl ifanc yn cael eu galluogi i gyfranogi'n ddiogel.